**EITEM AR YR AGENDA: 5**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**17eg Tachwedd 2008**

**Opsiynau'r Gyllideb ar gyfer 2009/10**

**Adroddiad gan Dawn Docx,**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau)**

**Diben yr Adroddiad**

**1** Y papur blaenorol gyflwynwyd yn ystod cyfarfod y Panel Gweithredol ar 22ail Medi 2008 yw sail y papur hwn. Mae'n edrych i ddisgrifio'r pwysau hysbys arwyddocaol ar gyfer 2009-10 a thu hwnt. Nid oes modd osgoi rhai o'r pwysau yma ac mae'r rhain wedi eu gosod yn nhabl A. Gwneir cais i aelodau nodi'r cynnydd canran darbodus ar gyfer codiadau cyflog a chwyddiant fydd yn cael eu hymgorffori o fewn cyllideb 2009/10.

**2** Gellir gohirio pwysau eraill neu gwrdd â hwy drwy ddulliau eraill megis yr arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi ei gadarnhau ar gyfer blwyddyn gyntaf Firelink. Mae'r pwysau yma wedi eu cyflwyno yn nhabl B er gwybodaeth oherwydd rhaid cyfeirio atynt yn y blynyddoedd i ddod.

**3** Dylid nodi mai hwn yw'r cyfle olaf i'r panel ddynodi beth ddylai gael ei gynnwys yng nghyllideb refeniw'r flwyddyn nesaf cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub am gymeradwyaeth ym mis Rhagfyr 2008.

**Cefndir**

4 Fel y nodwyd yn y papur blaenorol, y man cychwyn ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf yw'r gyllideb refeniw bresennol ar gyfer 2008/09 sef £30.338 miliwn.

5 Os mai dim ond y costau hysbys a restrir yn nhabl A sy'n mynd i fod yn rhan o gyllideb 2009-10, byddai angen cyllideb o £31,697 miliwn, fyddai'n gynnydd o 4.48%. Rhaid ystyried hyn yng ngoleuni trefniadau Grant Cynnal Refeniw i Ogledd Cymru sydd rhwng 1.5% a 3.7% i Undebau Unedol.

**Pwysau anochel**

6 Cytunir ar **godiadau cyflog** ar lefel genedlaethol. Mae llywodraeth ganol wedi datgan y dylai codiadau cyflog y sector gyhoeddus fod yn 2% neu lai. Fodd bynnag, gall yr hinsawdd economaidd godi'r gofyn am setliadau uwch. Y peryg yw, am bob 1% a gytunir dros y swm yn y gyllideb, bydd rhaid i'r Gwasanaeth ddod o hyd i £169,000 arall.

7 Yn ychwanegol i gostau cyflogau, mae nifer o **gostau gweithwyr anochel** eraill megis cynnydd mewn cymhorthdal i ddiffoddwyr tân ar y system dyletswydd rhan amser, a chynnydd dros dro mewn staff yn yr ystafell reoli a staff cefnogi dros gyfnodau mamolaeth a phrosiectau rheoli.

8 Mae **chwyddiant** ar gyfer tanwydd a gwasanaethau eraill yn anrhagweladwy iawn. Er mwyn lleihau'r cynnydd mewn canran, mae swyddogion yn awgrymu fod chwyddiant hysbys ac amcangyfrifiad am danwydd ychwanegol o £97,000 yn cael eu cynnwys, ond bod yr holl linellau cyllideb cyflenwadau a gwasanaethau eraill yn cael eu rhewi. Y peryg yw os yw'r llinellau cyllideb eraill yn cynyddu o 2% ar gyfartaledd, bydd angen £90,000 arall.

**Pwysau yn y Dyfodol**

**9** Mae Tabl B yn dangos y pwysau hynny sydd gan Aelodau beth disgresiwn os i gyfeirio atynt yn 2009/10, ac fe allant ddewis pa unai i'w cynnwys ai peidio yng nghyllideb refeniw'r flwyddyn nesaf.

**10** Fe gymerodd yr Awdurdod Tân ac Achub olaf y penderfyniad i **danategu** cyllideb eleni drwy gymryd swm o'r darpariaethau. Bydd angen ailosod hwn yn 2009/10. Un ffordd i wneud hyn yw cymryd y swm yma o'r darpariaethau. Fe ddylai aelodau fod yn ymwybodol na ellir parhau i wneud hyn bob blwyddyn oherwydd mai arian prin sydd ar ôl o fewn y darpariaethau. Ar ôl trosglwyddo £1 miliwn yn ôl i'r Awdurdodau Unedol yn 2006 ac egluro'r driniaeth gyfrifo gyda'r archwilwyr, dim ond £600,000 sydd gan yr Awdurdod ar ôl yn ei ddarpariaethau.

**11** Yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod Tân ac Achub; wrth i'r swyddi gwag o griwio'r Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr mewn ffordd wahanol godi, bydd yr arian yma'n cael ei ddefnyddio i ariannu'r cynnydd mewn gwaith **diogelwch cymunedol**.

**12** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cadarnhau y bydd yn cwrdd â chostau refeniw'r flwyddyn gyntaf ar gyfer y system radio newydd, Firelink, i'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Bydd rhaid cynnwys y costau ychwanegol yma yng nghyllideb 2010/11.

**13** Mae gwaith yn dal i barhau ar Brosiect **Gwerthuso Swyddi'r** staff cefnogi. Drwy reoli llinellau cyllideb eraill, mae swm o £115,000 wedi cael ei osod i'r ochr i gwrdd â chostau ychwanegol. Mae'n amhosib meintoli'r gost gynyddol ar hyn o bryd ac efallai na fydd hyn yn ddigon i gynnwys yr holl gynyddu mewn graddau ac amddiffyn cyflog.

**14** Pan fydd yr offer amddiffyn personol newydd yn cael ei brynu drwy'r Prosiect Dillad Integredig, bydd hwn yn cael ei ariannu drwy gyfalaf ac felly bydd yna oblygiadau ar y gyllideb refeniw o 2011 ymlaen yn ystod bywyd yr offer.

**15** Does dim dynodiad cadarn os fydd asedion ac offer Dimensiynau Newydd yn cael ei drosglwyddo i'r Awdurdodau Tân ac Achub. Adnabyddir y prosiect fel Rheoli Galluoedd Tymor Hir. Nes bod y dyddiad yma, ac i fwriadau ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn hysbys, ni ellir ei gynnwys yng nghyllideb 2009/10.

**Tabl A: Pwysau Anochel**

| Pwysau | Disgrifiad | Cost £'000 | cynnydd % |
|---|---|---|---|
| **1. Cyflog** | Er mwyn gostwng y cynnydd cyffredinol, defnyddir codiad o 2%. | **338** | **1.11%** |
| **2. Costau Gweithwyr eraill** | Oherwydd cynnydd mewn cymorthdaliadau, a chynnydd dros dro yn staff yr ystafell reoli a staff cefnogi. | **292** | **0.96%** |
| **3. Cost tanwydd a chwyddiant hysbys** | Er mwyn gostwng y cynnydd, dim ond y chwyddiant hysbys sydd wedi cael ei gynnwys. | **267** | **0.88%** |
| **4. Costau cyfalaf** | Costau anochel i fenthyca arian ar gyfer cyfalaf. | **341** | **1.13%** |
| **5. Colled arian blaendal** | Llog delir ar arian ar flaendaliadau yn is na'r disgwyl pan osodwyd y gyllideb y llynedd. | **120** | **0.40%** |
| | | | |
| **Cyfanswm** | | **1,358** | **4.48%** |

## Tabl B: Pwysau yn y dyfodol

| Pwysau | Disgrifiad | Cost £'000 | cynnydd % |
|---|---|---|---|
| **6. Tanategu** | Swm ar ei ben ei hun allai gael ei gymryd o ddarpariaethau ond byddai angen ei ailosod yng nghyllideb 10/11. | **192** | |
| **7. Cynnydd mewn gwaith diogelwch cymunedol** | Angen ar gyfer cyflwyno 30,000 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref bob blwyddyn. | **400** | |
| **8. Firelink** | Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno i ariannu costau'r flwyddyn gyntaf. Ond bydd rhaid cynnwys hyn yng nghyllideb 2010/11. | **350** | |
| **9. Gwerthuso Swyddi** | Mae swm o £115,000 wedi cael ei gymryd o'r llinellau cyllideb eraill i ariannu canlyniadau'r gwerthusiad. | **115** | |
| **10. Parhad Gwasanaeth** | Mae'r Awdurdod Tân wedi penderfynu dilyn datrysiad Cymru gyfan ac felly nid oes angen yr arian yma eleni. | **178** | |
| **11. Prosiect Dillad Integredig** | Pan fydd offer amddiffyn personol yn cael ei brynu, bydd yn dod o Gyfalaf. | **?** | **?** |
| **12. Rheoli Galluoedd Tymor Hir** | Trosglwyddo holl asedion ac offer y Dimensiwn Newydd i'r Awdurdodau Tân ac Achub. | **?** | **?** |

## 16 Argymhelliad

Gofynnir i aelodau:

1. nodi'r pwysau uchod fydd yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod Tân ac Achub gydag argymelliadau'r panel;

2. nodi'r risg sydd ynghlwm â phob tybiaeth gynllunio.